# Cyflogaeth deuluol gan Aelod Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

10 Gorffennaf 2019

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

*Rwy'n gofyn am fanylion penodol mewn perthynas â chyflog, ond os byddai hynny'n arwain at wrthod fy nghais, byddwn yn hapus o gael gwybodaeth am fandiau cyflog yn unig.*

*O ran pa mor bell yn ôl yr hoffwn fynd, hoffwn holi yn ôl i'r pwynt yr oedd holl aelodau presennol o'r teulu a gyflogir wedi dechrau gweithio. Credaf mai gwraig Andrew Rt Davis oedd hon yn 2008. Felly, 2008 i bob pwrpas.*

*Diolch i chi am ystyried y cais ac rwy'n hapus i hyn gael ei drin fel cais rhyddid gwybodaeth ar wahân.*

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, mae'n cynnwys data personol at ddibenion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Byddai datgelu'r symiau, yn ôl eu trefn, a delir i staff cymorth unigol ynghyd â'r cyfnod y buont ar y band cyflog hwnnw, yn ein barn ni, yn mynd yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y nodir yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sy'n sail i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Fodd bynnag, er mwyn darparu gwybodaeth ichi, a chydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, rydym wedi darparu manylion am y symiau a dalwyd ar ffurf ddienw yn y tabl isod:

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| Blwyddyn | Band | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Band 1 | Band 2 | Band 3 | Cymorth Grŵp Ychwanegol |
| 2008 | Llai na 3 | Llai na 3 | 3 | Amherthnasol |
| 2009 | Llai na 3 | Llai na 3 | 3 | Amherthnasol |
| 2010 | Llai na 3 | Llai na 3 | 3 | Amherthnasol |
| 2011 | Llai na 3 | Llai na 3 | 3 | Amherthnasol |
| 2012 | Llai na 3 | Llai na 3 | 3 | Amherthnasol |
| 2013 | 4 | 3 | 3 | Amherthnasol |
| 2014 | 4 | 4 | 3 | Amherthnasol |
| 2015 | Llai na 3 | 5 | 3 | Amherthnasol |
| 2016 | 4 | 5 | 5 | Llai na 3 |
| 2017 | 4 | 6 | 6 | Llai na 3 |
| 2018 | 4 | 7 | 6 | 4 |
| 2019 (O'r dyddiad rhyddhau) | 4 | 6 | 5 | 4 |

**Er gwybodaeth:** Caiff cyflogeion a newidiodd fandiau yn ystod blwyddyn benodol eu cyfrif tuag at gyfanswm y ffigur ar gyfer pob band yn ystod y flwyddyn galendr berthnasol.

Mae gan Aelodau'r Cynulliad yr hawl i gael adnoddau i gyflogi staff ac i gynnal swyddfeydd yn eu hetholaethau fel y gallant ymdrin â materion ac achosion a godir gan y bobl y maent yn eu cynrychioli.

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau'r Cynulliad yr hawl i wneud cais amdano i'w cael yn y 'Penderfyniad'.

Mae'r adran berthnasol o'r Penderfyniad sy'n ymdrin â'r lwfans gwariant staffio yn dweud:

*7.1.2 Caiff Aelodau hawlio lwfans i dalu costau cyflogau eu staff. Bydd cyfraniadau perthynol y cyflogwr at Yswiriant Gwladol, gan gynnwys y cyfraniadau ar gyfer unrhyw daliadau goramser y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.5.1, yn cael eu talu'n ganolog a hynny heb eu didynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio.*

Mae Tabl 3 o dan baragraff 7.1.4 yn rhoi graddfeydd cyflog Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2019-20. Cyhoeddir Penderfyniadau cynharach

ar ein gwefan hefyd, lle mae gwybodaeth am raddfeydd cyflog blaenorol ar gael.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

Mae peth o’r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi’i gynnwys yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, sef:

“any information relating to an identified or identifiable person (‘data subject’); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person”.

Mae gwybodaeth bersonol wedi’i heithrio o’r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3A)(a) o’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i un neu fwy o’r egwyddorion diogelu data o fewn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Yr egwyddor sy’n berthnasol ar yr achlysur hwn yw’r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae’r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y nodir yn Erthygl 5 o’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn nodi:

‘Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject (‘lawfulness, fairness and transparency’).’

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu’r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a’r cydbwysedd rhwng hawliau’r unigolion ac unrhyw fudd dilys sy’n deillio o’r datgeliad. Mae Staff Cymorth sy’n aelodau teulu yn grŵp bach a phenodol o staff y mae eu henwau, disgrifiadau swydd ac oriau a weithir yr wythnos eisoes wedi’u cyhoeddi ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau. Ein casgliad yw y byddai’n annheg datgelu’r wybodaeth. Mae band cyflog unigolyn yn berthnasol i’w sefyllfa ariannol ac mae’n breifat ei natur. Nid yw’r staff, er eu bod yn y dosbarth aelodau o’r teulu, yn disgwyl i wybodaeth am fanylion eu cyflog gael ei chyhoeddi. Yn hytrach, mae’r rheolau sy’n ymwneud â pha daliadau a gaiff (ac na chaiff) eu gwneud wedi’u cyhoeddi, fel y nodir yn y Penderfyniad.

Serch fy marn ynghylch sicrhau tegwch, es ymlaen i ystyried Erthygl 6 o’r y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Nid yw unrhyw un o’r amodau yn

Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Ni ddylai'r datgeliad anwybyddu buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid testun y data.

Mae tryloywder yn gyffredinol o fudd i'r cyhoedd. Mae gwybod y ffiniau a lefel y cymorth a gaiff Aelodau'r Cynulliad er mwyn gallu cyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys darparu cymorth staffio, hefyd o fudd penodol i'r cyhoedd. Yn ein barn ni, bodlonir budd y cyhoedd yn yr achos hwn drwy ddatgelu'n ddienw ynghyd â Chofrestr Buddiannau'r Aelodau a chyhoeddi Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae'r Penderfyniad yn pennu'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod ganddynt staff cymorth. Mewn perthynas â phob math o gymorth sydd ar gael, mae'n rhoi manylion ynghylch yr amgylchiadau lle gellir talu symiau o arian, ac unrhyw uchafsymiau perthnasol.

O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n angenrheidiol datgelu'r symiau penodol a delir i staff cymorth unigol i fodloni budd y cyhoedd.